



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Pecyn Cyn-raglen Myfyriwr TAR 2024

www.athrofa.cymru



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Student Pre-programme Pack

Congratulations on starting your exciting journey to becoming a teacher and making a difference to the lives of young people in Wales. The staff of Yr Athrofa at the University of Wales Trinity Saint David are very much looking forward to working with you and wish you the warmest of welcomes. The university programme is designed to fully support you in becoming a confident, professional, highly effective and reflective teacher.

Students often ask how they can prepare for their PGCE and BAEd studies and this resource is designed to help you. The pre-programme pack consists of tasks, tips and reflective activities to start you thinking, both personally and critically, about what it means to be a teacher in Wales. The responses that you develop here will form a part of early discussions with your personal tutor group when you start with us in September, so it is important that you engage as fully as possible. We hope that you enjoy!

The way in which you engage with each task is not prescriptive; it's up to you how you wish to present your ideas. For example, you may want to create a spider diagram, draw a doodle, use bullet points or write in prose or even poetry, and your responses can be recorded digitally or as a hard copy.

Add text where you see the option and upload images where you see the spider diagram icon.



You can complete your pack in either Welsh or English. The Welsh version can be found in the same email where you found this document. You can also find it at <http://bit.ly/tar-uwtssd-pgce>



Pecyn Cyn-raglen Myfyriwr

Llongyfarchiadau ar ddechrau ar eich taith gyffrous i ddod yn athro/athrawes a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yng Nghymru. Mae staff yr Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda chi ac yn dymuno rhoi croeso twymgalon i chi. Lluniwyd y rhaglen brifysgol i roi cefnogaeth lawn i chi ar y daith i ddod yn athro/athrawes hyderus, proffesiynol, effeithiol ac adfyfyriol iawn.

Bydd myfyrwyr yn aml yn gofyn sut gallan nhw baratoi ar gyfer eu hastudiaethau gyda ni a lluniwyd yr adnodd cyn raglen hwn i'ch helpu. Mae'n cynnwys amrywiaeth o dasgau syml, cyngor defnyddiol a gweithgareddau adfyfyriol i chi ddechrau meddwl, yn bersonol ac yn feirniadol, am beth mae'n ei olygu i fod yn athro/athrawes yng Nghymru. Bydd yr atebion a ddatblygwch yma'n ffurfio rhan o drafodaethau cynnar gyda'ch grŵp tiwtor personol pan ddechreuwch gyda ni ym mis Medi.

Nid yw'r ffordd byddwch yn ymgymryd â phob tasg yn rhagnodol; chi sydd i benderfynu sut yr hoffech gyflwyno'ch syniadau. Er enghraifft, efallai yr hoffech greu diagram gwe corryn, gwneud dwl, defnyddio pwyntiau bwled neu ysgrifennu mewn rhyddiaith neu farddoniaeth hyd yn oed, a gellir recordio'ch ymatebion yn ddigidol neu fel copi caled. Gobeithio y byddwch yn mwynhau!

Ychwanegwch destun lle ceir opsiwn ac uwchlwythwch ddelweddau lle gwelir eicon diagram gwe corryn.



Cewch gwblhau'ch pecyn naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gellir dod o hyd i'r fersiwn Gymraeg yn yr un e-bost lle'r oedd y ddogfen hon. Gallwch ei gael hefyd ar <http://bit.ly/tar-uwtssd-pgce>



I'ch rhoi ar ben ffordd... (Tau 5 munud)

Yn eich barn chi, beth yw diben addysg yn yr 21^{ain} ganrif? Crynowch eich syniadau mewn dim mwy nag 20 gair:

Rhannwch eich barn fan hyn.

Datblygu Athroniaeth Bersonol o Addysg (45 munud – 1 awr)

Mae'r tasgau hyn yn gofyn ichi gychwyn ar archwiliad beirniadol o'ch profiadau o addysg hyd yn hyn a dechrau dynodi damcaniaeth bersonol o ddysgu ac addysgu, proses bwysig o ran paratoi ar gyfer gyrfa fel athro/athrawes.




1. Eich cefndir addysgol eich hun

Ystyriwch effaith eich cefndir addysgol eich hun ar eich syniadau ynghylch dysgu ac addysgu.

Cwestiynau y gallech eu hystyried: I ba fath o ysgol gynradd yr aethoch chi? I ba fath o ysgol uwchradd yr aethoch chi? Sut gwnaeth y grwpiau roeddech chi ynddyn nhw yn yr ysgol ddylanwadu ar eich dysgu? Beth gallwch chi ei gofio am uchafbwyntiau neu isafbwyntiau arwyddocaol yn eich dysgu?

Rhannwch eich barn fan hyn.




2. Eich dysgu'ch hun

Cwestiwn allweddol: Beth oedd eich profiad chi o ddysgu gwahanol bynciau yn yr ysgol ac mewn addysg uwch?

Oedd pynciau neu ddulliau addysgu penodol oedd yn sefyll allan? Ydych chi'n cofio unrhyw brofiad a oedd yn rhannol ddylanwadol o ran eich helpu i ddeall pwnc penodol? A wnaeth dysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth chwarae rhan?

Rhannwch eich barn fan hyn.



3. Eich barn am y cwricwlwm

Cwestiwn allweddol: Beth yw'ch barn bersonol am y cwricwlwm cynradd?

Cwestiwn pellach: Beth yw ei ddiben i gymdeithas?

Rhannwch eich barn fan hyn.




4. Dysgu ac addysgu

Cwestiwn allweddol: Yn eich barn chi beth yw nodweddion addysgu da?

Cwestiynau pellach: Yn eich barn chi sut mae plant yn dysgu orau? Oes gwahaniaethau wrth addysgu pynciau gwahanol? Oes gwahaniaethau wrth addysgu ar gyfer cyfnodau gwahanol?

Rhannwch eich barn fan hyn.




Mae'r cwricwlwm Cymreig yn cael ei ailstrwythuro'n sylweddol ar hyn o bryd a lansiwyd Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Ni fydd ganddo duedd tuag at naill ai gwybodaeth na sgiliau ond bydd yn caniatáu i ysgolion ddarparu cydbwysedd o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd wedi'i ddatblygu i gyflawni pedwar diben. Ei nod yw cynhyrchu plant sydd, neu a fydd yn datblygu i fod yn:

- Ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol
- Unigolion iach a hyderus
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus

Mae gan y Cwricwlwm i Gymru chwe maes dysgu a phrofiad.

- 1. Y Celfyddydau Mynegiannol
- 2. Y Dyniaethau
- 3. Iechyd a Lles
- 4. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- 5. Mathemateg a rhifedd
- 6. Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu



Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Gwricwlwm i Gymru yn - <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/>

Mae'r dudalen hon yn fan cychwyn da i'r rhai ohonoch a hoffai gael gwybod mwy am y newidiadau - <https://www.llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid>

Tasg:

Gwylwch y ddau glip byr hwn:

Cwricwlwm newydd i Gymru



Yr Athro Graham Donaldson yn siarad am 'A new curriculum – what makes it so different?'



Yn y swigod meddwl isod, nodwch eiriau allweddol neu ffeithiau diddorol o'r fideos hyn gan ystyried pa oblygiadau allai fod ganddyn nhw ar gyfer y ffordd rydych chi'n addysgu.

Cliciwch neu dapiwch
yma er mwyn mewnosod
testun

Cliciwch neu dapiwch
yma er mwyn
mewnosod testun.

Cliciwch neu dapiwch yma
er mwyn mewnosod testun


Cliciwch neu dapiwch
yma er mwyn mewnosod
testun

Cliciwch neu dapiwch
yma er mwyn
mewnosod testun


Y Safonau Proffesiynol yng Nghymru (30-40 munud)

Mae safonau proffesiynol yn disgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu arfer rhagorol ac yn cefnogi twf proffesiynol. Mae'r pum safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar y pum elfen hanfodol o waith pob athro ac athrawes (Addysg Cymru 2018, *Cyflwyniad i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* t.2)

Pum dimensiwn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth



11




Tasg:

Mae pum safon broffesiynol, gan gynnwys disgrifyddion, y mae athrawon yn cael eu hannog i weithio tuag atyn nhw fel rhan o'u dysgu a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Wrth baratoi ar gyfer eich rhaglen, byddai'n ddefnyddiol treulio rhywfaint o amser yn ymgyswrtio â'r safonau gan ystyried sut y gallai'r rhain ymddangos yn yr ystafell ddosbarth.



Mae'r clip canlynol yn drosolwg byr o'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth



Pan fyddwch wedi gwyllo'r fideo, cliciwch ar bob un o'r safonau uchod i gael mynediad at weithgareddau a fydd yn eich helpu i gael dealltwriaeth fwy manwl o'r Safonau Addysgu Proffesiynol.

Addysgeg

Gwylwch y fideo canlynol fel cyflwyniad byr i'r term addysgeg a nifer o syniadau allweddol y byddwch yn dysgu rhagor amdanyn nhw ar y rhaglen:

Tasg: Beth mae'r term addysgeg yn ei olygu i chi? Yn eich barn chi beth yw addysgeg effeithiol?

Cliciwch neu dapiwch yma er mwyn mewnosod testun.



Arweinyddiaeth

Tasg: Pa brofiad blaenorol sydd gennych o arweinyddiaeth? Gallai hyn fod yn arwain menter/grŵp/mewn swydd ac ati. Beth byddech chi'n ddweud yw elfennau allweddol arweinyddiaeth dda?

Cliciwch neu dapiwch yma er mwyn mewnosod testun.

Dysgu Proffesiynol

Tasg: Drwy gymryd rhan yn y rhaglen, byddwch yn ymgymryd â dysgu proffesiynol. Pa agweddau ar ddysgu proffesiynol sy'n arbennig o bwysig i chi?

Cliciwch neu dapiwch yma er mwyn mewnosod testun.

Arloesi :

Tasg: Yn eich barn chi pam y gellid ystyried bod arloesi'n bwysig i athro/athrawes? Beth yw'ch profiadau blaenorol o arloesi?

Cliciwch neu dapiwch yma er mwyn mewnosod testun.

Cydweithredu :

Tasg: Ym mha ffyrdd rydych chi'n mwynhau cydweithio a phryd mae hyn wedi gweithio ar ei orau? Beth byddech yn ddweud yw'ch cryfderau o ran cydweithio?

Cliciwch neu dapiwch yma er mwyn mewnosod testun.

Os hoffech edrych ar y safonau'n fwy manwl, mae gan Lywodraeth Cymru adnodd rhyngweithiol ardderchog <https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf>

Argymhellion o ran darllen

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u gwneud gan fyfyrwyr blaenorol sydd wedi astudio gyda'r Athrofa a'r bwriad yw iddyn nhw roi 'blas' ar rai agweddau ar addysgu a allai fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i chi.

Sylwer mai sampl fach o awgrymiadau anffurfiol yw'r rhain ac nid oes disgwyl i chi brynu copïau.

Cewch eich cyfeirio at argymhellion pellach a darnau darllen angenrheidiol pan ddechreuwch gyda ni ym mis Medi.



Rhwydweithio :

Mae toreth o addysgwyr gwych ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol megis Twitter. Gallwch ddechrau drwy ein dilyn ni ar Twitter - #APLPteach @APLPteach @UWTSD

Bydd hwn yn gychwyn da i sefydlu cyfleoedd i rwydweithio a darganfod pobl bosibl i'w dilyn.

